Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 07.01.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## COVID-19: crynodeb o'r newidiadau diweddar

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi heddiw na fydd newidiadau pellach i'r rheoliadau Coronafeirws yr wythnos hon, gan rybuddio ein bod i gyd yn wynebu mis anodd o'n blaenau.

I ddarllen datganiad heddiw, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-o-reoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-14

Bu nifer o newidiadau yn y canllawiau a'r rheoliadau dros gyfnod y gwyliau. Dyma grynodeb cyflym o'r newidiadau:

- Cymerwch Brofion Llif Unffordd(LFTs) yn rheolaidd ac adroddwch am y canlyniadau. Mae LFTs ar gael mewn sawl lle, am ragor o wybodaeth ewch i: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Argyfwng/Coronafeirws/Prawf-Covid-19.aspx

- Os cewch ganlyniad LFT positif, rhaid i chi hunanynysu ar unwaith ond ni fydd angen i'r mwyafrif o bobl sefyll prawf PCR i gadarnhau'r canlyniad. Am fwy o wybodaeth ewch i: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-blaenoriaethu-profion-pcr

- Os ydych wedi profi'n bositif am COVID-19 gallwch beidio â hunanynysu ar ôl 7 diwrnod llawn os oes gennych LFT negyddol ar ddiwrnod 6 a diwrnod 7. Am ragor o wybodaeth ewch i: https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu

- Os ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â rhywun â choronafeirws ond wedi'ch brechu'n llawn, nid oes angen i chi hunanynysu mwyach, ond rhaid i chi gymryd LFT bob dydd am 7 diwrnod. Am fwy o wybodaeth ewch i: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-newidiadau-ir-drefn-hunanynysu

- Mae'r gofynion profi ar gyfer teithio rhyngwladol wedi newid. Am fwy o wybodaeth ewch i: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-newidiadau-i-deithio-rhyngwladol-5

Gellir trefnu apwyntiadau brechu rhag COVID-19, gan gynnwys pigiadau atgyfnerthu, ar-lein, ewch i: https://bipbc.gig.cymru/covid-19/brechlyn-covid-19/

# COVID-19: Gofynion a rheoliadau Lefel Rhybudd 2 i fusnesau

Dyma nodyn atgoffa o brif ofynion a rheoliadau Lefel Rhybudd 2 ar gyfer busnesau:

- Rhaid i chi barhau i gynnal asesiad risg coronafeirws penodol a chymryd mesurau rhesymol i leihau cysylltiad â, a lledaeniad, coronafeirws.
- Rhaid i bobl weithio gartref lle bo hynny'n rhesymol ac ymarferol iddynt wneud hynny
- Gofyniad cyffredinol i gadw pellter cymdeithasol o 2m ym mhob lleoliad sydd ar agor i'r cyhoedd ac ym mhob gweithle, pan fo hynny'n rhesymol
- Bydd y rheol 6 o bobl mewn grym pan fydd pobl yn ymgynnull mewn lleoliadau a reoleiddir, megis lletygarwch, sinemâu a theatrau
- Bydd angen i bob lleoliad trwyddedig gymryd mesurau ychwanegol i ddiogelu cwsmeriaid a staff, gan gynnwys gwasanaeth gweini wrth y bwrdd a chasglu manylion cyswllt i ddiben cyfundrefn canfod a darganfod
- Bydd gorchuddion wyneb yn ofynnol mewn lleoliadau lletygarwch bob amser heblaw pan fo pobl yn eistedd
- Ni fydd digwyddiadau mawr yn cael eu caniatáu o dan do nac yn yr awyr agored – Y nifer mwyaf o bobl a fydd yn cael ymgynnull mewn digwyddiad dan do fydd 30; 50 yn yr awyr agored
- Clybiau nos i fod ar gau

Mae crynodeb o reoliadau Lefel Rhybudd 2 wedi eu diweddaru ar gael ar:
https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-2-crynodeb

Lefel Rhybudd 2: canllawiau i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau:
https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-2-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau

Lefel Rhybudd 2: cardiau gweithredu mesurau rhesymol ar gyfer busnesau a sefydliadau:
https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-2-cardiau-gweithredu-mesurau-rhesymol-ar-gyfer-busnesau-sefydliadau

# COVID-19: Diweddariad ar gymorth ariannol i fusnesau yr effeithir arnynt gan reoliadau Lefel Rhybudd 2

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu diweddariad byr ar y cymorth ariannol a ddarperir i fusnesau yr effeithir arnynt, gan gynnwys busnesau newydd. I ddarllen y datganiad ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymorth-ariannol-covid-brys-gan-gynnwys-busnesau-sydd-newydd-eu-sefydlu

Bydd tair cronfa ar gael gan Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau sydd wedi cael eu heffeithio'n ddifrifol gan reoliadau Lefel Rhybudd 2:

- Grantiau cysylltiedig ag Ardrethi Annomestig (NDR) o hyd at £6,000 (i'w weinyddu gan Gyngor Gwynedd)

- Ailagor Cronfa Cadernid Economaidd (ERF) Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ychwanegol (ar ben y grantiau cysylltiedig NDR) o hyd at £25,000 i fusnesau mwy

- Cronfa ddewisol i gefnogi busnesau sydd ddim yn talu trethi, gyda grantiau o £500 – £2,000 (i'w weinyddu gan Gyngor Gwynedd)

Bydd y broses gofrestru ar gyfer y grantiau cysylltiedig ag Ardrethi Annomestig yn agor ar 13 Ionawr 2022 a bydd y broses ymgeisio am y gronfa ddewisol a'r Gronfa Cadernid Economaidd yn agor yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 17 Ionawr 2022. Mae gwiriwr cymhwysedd ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd bellach ar agor ar wefan Busnes Cymru: https://fundchecker.businesswales.gov.wales/businesssupport/cy/

Nid yw'r canllawiau terfynol ar gyfer y Grantiau cysylltiedig ag Ardrethi Annomestig (NDR) a'r gronfa ddewisol wedi'u rhyddhau eto. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu cyn gynted ag y bydd ar gael.

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru